

CWRDD Â NHW

15 MUNUD



Mae Ellen yn gweithio yn yr Amgueddfa Astudiaethau Natur a Choleg Prifysgol Llundain, ond mae wedi teithio ledled y byd i wneud ei hymchwil. Mae Ellen yn fiolegydd esblygiadol, mae hi wedi caru morfilod ers pan oedd hi'n 6 oed ac mae'n hoffi ceisio ateb cwestiynau fel 'pam a sut y collodd morfilod eu coesau?' ac 'a fydd morfilod yn diflannu oherwydd newid yn yr hinsawdd?'

Gwylwch Ellen yn siarad am ei gyrfa yma

Trafod:

- Beth yw eich barn am y fideo?
- Beth ydych yn feddwl am yrfa Ellen?
- Beth ydych yn feddwl yw bioleg esblygiadol?



GWEITHGAREDDAU

40 MUNUD

GWNEUD

Byddwch angen: pasta siapiau gwahanol, selotep/play-doh/clai.

Mae gwaith Ellen yn cynnwys edrych ar ffosilau. Yn y gweithgaredd yma byddwch yn creu eich ffosil eich hun.

1. Dechreuwch trwy rollo'r blue tack/play-doh /clai ar arwyneb gwastad, dylai fod tua ½ cm o drwch.
2. Pwyswch y siapiau pasta i mewn i'r clai/play-doh i wneud ffosil deinor. Er enghraifft, byddai pasta penne rigate yn gweithio'n wych fel asennau'r ffosil deinor.
3. Yna tynnwch y siapiau pasta i adael ôl sy'n edrych fel ffosil.

Os nad oes gennych basta siapiau gwahanol, chwiliwch am eitemau gwedog eraill y gallech eu defnyddio yn lle. [Dyma enghraifft o ffosil deinor y gallech roi cynnig ar ei ail-greu.](#)

NEU

ARCHWILIO

Byddwch angen: papur, pinnau ysgrifennu, mynediad at y rhyngwyd.

Fel y gwelsoch yn fideo Ellen, mae rhaid iddi dreulio peth o'i hamser yn gwneud gwaith codio. Yn y gweithgaredd yma byddwch yn rhoi cynnig ar godio. Byddwn yn defnyddio Scratch i godio stori i helpu Ellen i ddysgu mwy am sut mae morfilod wedi esblygu.

1. Gwylwch [y fideo yma gan Science Insider](#), a gwnewch nodiadau am sut mae morfilod wedi esblygu dros 50 miliwn o flynyddoedd.
2. Ewch i: [Scratch.mit.edu](https://scratch.mit.edu) a chodiwch corlun i egluro i ni sut mae morfilod wedi esblygu. Defnyddiwch eich cyfeiriad e-bost ysgol i gofrestru am ddim. Byddwch mor greadigol ag y dymunwch gyda'ch straeon.
3. Os nad ydych wedi defnyddio Scratch o'r blaen, efallai yr hoffech wyllo'r [fideo yma gan Cool Scratch Tutorials](#) i ddysgu am hanfodion Scratch.
4. Cyflwynwch eich storiâu i weddill y dosbarth.



Awgrym: Efallai byddai'n syniad da i ail-wyllo'r fideo ychydig o weithiau i wneud yn siŵr bod eich nodiadau'n gywir.

